Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer trafod y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)

Tachwedd 2019

Ar 18 Tachwedd 2019, cafodd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ei gyflwyno yn y Cynulliad.

Ar 22 Hydref 2019, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau er mwyn iddo drafod yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.

Ar 26 Tachwedd 2019, yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen i'r Pwyllgor drafod egwyddorion cyffredinol y Bil a chytuno y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 13 Mawrth 2020.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 22 Mai 2020, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.